



Ein cyf/Our ref: MA/RE/3896/21

To:  
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru  
Heddluoedd Cymru

Copies to:  
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru  
Prif Gwnstablaid Heddluoedd yng Nghymru  
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

16 Rhagfyr 2021

Annwyl Gomisiynwyr,

### Setliad Dros Dro yr Heddlu 2022-23

Yn dilyn y cyhoeddiad heddiw gan y Swyddfa Gartref ynghylch y Setliad Dros Dro ar gyfer plismona yng Nghymru a Lloegr, rwyf yn ysgrifennu i ddarparu manylion am elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Dros Dro yr Heddlu i heddluoedd yng Nghymru ar gyfer 2022-23.

Er mwyn helpu i drosglwyddo'n ddirwystr tuag at gadw ardrethi annomestig yn rhannol ar gyfer Rhanbarthau'r Fargen Ddinesig a'r Fargen Twf, gwnaed addasiad technegol i gyfansoddiad cyfraniad Llywodraeth Cymru at gyllid yr heddlu. Yn unol â'r diwygiad hwn, mae cyfran yr ardrethi annomestig a ddosbarthwyd a dderbynnir gan heddluoedd yn gostwng o 5% i 0.1%. Mae hyn wedi'i fodloni gan gynnydd cyfatebol yn y swm canran a dderbynnir o'r Grant Cynnal Refeniw. Newid technegol yn unig yw hwn. Ni fydd unrhyw Heddlu yn colli cyllid o ganlyniad i'r newid hwn, ac nid effeithiwyd ar gyfanswm yr ardrethi annomestig a'r Grant Cynnal Refeniw a ddarperir.

Ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, mae'r Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo cyllid yn flynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru fodloni'r cyfraniad y cytunwyd arno ar ei chyfer at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, ni fydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei drosglwyddo bellach a bydd, yn hytrach, yn cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad, bydd gostyngiad o £29.93m yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac ni fydd yn golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol ar gyfer unrhyw Heddlu.

Nodwyd yng nghyhoeddiad y Swyddfa Gartref, o ystyried elfen y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd, y bydd holl heddluoedd Cymru yn cael cynnydd o 5.9% mewn cyllid craidd yn 2022-23, cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Mae'r Cyllid ar gyfer y Gangen Arbennig wedi'i drosglwyddo allan o Brif Grant yr Heddlu i'r Grant Plismona

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwrthderfysgaeth, yn unol â chyllideb 2021-22. Gan fod y cyfanswm sy'n cael ei drosglwyddo yn seiliedig ar gyllideb heddluoedd ar gyfer 2021-22, a bydd yn parhau felly ar gyfer 2022-23, ni fydd y trosglwyddiad yn cael unrhyw effaith net ar yr heddluoedd.

Yn **Atodiad A** ceir manylion y Setliad Dros Dro ar gyfer pob heddlu yng Nghymru.

Mae'r cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar y swm a'r dosbarthiad yn dechrau heddiw ac yn dod i ben ar 13 Ionawr 2022. Dylid anfon ymatebion at:

Simon Edwards, [LGFPSettlement@llyw.cymru](mailto:LGFPSettlement@llyw.cymru)


Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal â hynny, rydym yn gwahodd sylwadau a ellid llunio'r setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, i gael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddau eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Byddaf yn ystyried yr ymatebion i gyd cyn gwneud penderfyniad terfynol a chyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2022-23 (Comisiynwyr Heddlu a Throseddau). Mae disgwyl i'r ddadl ar yr adroddiad hwn gael ei gynnal yn y Senedd yn Chwefror 2022.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government

## Atodiad A: Setliad Dros Dro'r Heddlu ar gyfer Cymru, 2022-23

Tabl 1a: Asesiad o Wariant Safonol (£ miliwn) <sup>1</sup>

Heddlu	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Dyfed-Powys	35.860	36.618	37.049	37.492	33.904
Gwent	53.462	54.593	55.236	55.896	50.547
Gogledd Cymru	51.654	52.743	53.377	54.012	48.845
De Cymru	124.630	127.269	128.757	130.295	117.826
<b>Cyfanswm</b>	<b>265.606</b>	<b>271.223</b>	<b>274.419</b>	<b>277.694</b>	<b>251.122</b>

Tabl 1b: Cyllid Allanol Cyfun (Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol) (£ miliwn) <sup>1</sup>

Heddlu	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Dyfed-Powys	13.101	13.355	13.150	13.030	8.667
Gwent	31.083	31.701	31.790	31.857	25.939
Gogledd Cymru	22.122	22.496	22.614	22.523	16.513
De Cymru	74.594	75.848	75.845	75.989	62.352
<b>Cyfanswm</b>	<b>140.900</b>	<b>143.400</b>	<b>143.400</b>	<b>143.400</b>	<b>113.470</b>

Tabl 1c: Grant yr Heddlu a Chyllid Gwaelodol (£ miliwn) <sup>1, 2, 3</sup>

Heddlu	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Dyfed-Powys	36.212	36.993	40.967	44.497	52.272
Gwent	40.404	41.287	46.660	51.539	62.401
Gogledd Cymru	49.606	50.738	56.101	61.153	72.125
De Cymru	82.812	84.864	96.895	107.639	132.165
<b>Cyfanswm</b>	<b>209.034</b>	<b>213.882</b>	<b>240.622</b>	<b>264.828</b>	<b>318.964</b>

Tabl 1d: Cyfanswm Cymorth Canolog (£ miliwn) <sup>3</sup>

Heddlu	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Dyfed-Powys	49.313	50.348	54.116	57.528	60.939
Gwent	71.487	72.988	78.451	83.396	88.341
Gogledd Cymru	71.728	73.234	78.715	83.677	88.638
De Cymru	157.407	160.712	172.740	183.629	194.517
<b>Cyfanswm</b>	<b>349.934</b>	<b>357.282</b>	<b>384.022</b>	<b>408.228</b>	<b>432.434</b>

Tabl 1e: Newid mewn Cyfanswm Cymorth Canolog ers y flwyddyn flaenorol (y cant) <sup>3</sup>

Heddlu	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Dyfed-Powys	0.0	2.1	7.5	6.3	5.9
Gwent	0.0	2.1	7.5	6.3	5.9
Gogledd Cymru	0.0	2.1	7.5	6.3	5.9
De Cymru	0.0	2.1	7.5	6.3	5.9
<b>Cyfanswm</b>	<b>0.0</b>	<b>2.1</b>	<b>7.5</b>	<b>6.3</b>	<b>5.9</b>

Nodiadau:

1. Ers Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, mae'r Swyddfa Gartref wedi trosglwyddo cyllid yn flynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru fodloni'r cyfraniad y cytunwyd arno ar ei chyfer at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, ni fydd y cyllid ychwanegol hwn yn cael ei drosglwyddo bellach a bydd, yn hytrach, yn cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad, bydd

gostyngiad o £29.93m yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac ni fydd yn golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol ar gyfer unrhyw Heddlu.

2. Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn adran 3 o Adroddiad Grant yr Heddlu sy'n cynnwys y dyraniad o dan 'Prif Fformiwla' ac 'Ychwanegu Rheol 1' (colofnau a a b) plws swm y 'cyllid gwaelodol' y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i sicrhau sydd ar gael.

3. Dangosir y ffigurau ar gyfer 2022-23 cyn yr addasiad a wneir ar gyfer trosglwyddo cyllid y Gangen Arbennig, fel y nodir ym mharagraff 4.8 o Adroddiad Grant yr Heddlu.